**Y Pwyllgor Cyllid**
—
**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Ken Skates AS, Comisiynydd y Senedd
Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru
Dr Kathryn Chamberlain, Cadeirydd Bwrdd Archwilio Cymru
Michelle Morris, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

23 Chwefror 2024

Annwyl bawb,

Newidiadau i Brotocol Proses y Gyllideb: Ymgynghoriad â Chyrff a Ariennir yn Uniongyrchol

Mae'r Pwyllgor yn cynnal adolygiad o Brotocol Proses y Gyllideb (y Protocol) ar hyn o bryd, gan drafod newidiadau arfaethedig gyda'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol i adlewyrchu'r arferion presennol yn y Senedd yn well. Amlinellir crynodeb o'r newidiadau arfaethedig sy'n cael eu hystyried yn fy llythyr at y Gweinidog ar 11 Rhagfyr 2023.

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor yn ddiweddar wedi cynnal ymgynghoriad â phob Corff a Ariennir yn Uniongyrchol ynghylch adolygiad y Pwyllgor o'r Datganiad o Egwyddorion, a hynny cyn gofyn i'r cyrff hyn a yw gweithdrefnau'r Senedd ar gyfer ymdrin â chyllidebau atodol yn parhau i fod yn addas at y diben.

Rydym yn ddiolchgar am eich ymatebion, a drafodwyd gan y Pwyllgor ar 31 Ionawr. Fodd bynnag, o ystyried bod y Protocol yn berthnasol i'r Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol, byddem yn croesawu unrhyw farn ychwanegol sydd gennych ar y Protocol ei hun, a fyddai'n helpu i lywio trafodaethau parhaus rhwng y Pwyllgor a'r Gweinidog ar y materion hyn.

Nid oes angen ailddatgan y safbwyntiau yr ydych eisoes wedi'u nodi yn eich ymatebion i'r adolygiad o'r Datganiad o Egwyddorion. Fodd bynnag, byddem yn croesawu unrhyw sylwadau ychwanegol sydd gennych ar y newidiadau arfaethedig i'r Protocol, a'r effaith bosibl ar Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol, erbyn dechrau tymor yr Haf, sef ddydd Llun 15 Ebrill.

Yn gywir,

Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.